Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Cymer Rhondda
**Heol Graigwen**
**Cymmer**
**Porth**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF39 9HA**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 02/06/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gyfun Cymer Rhondda yn ysgol gyfun ddynodedig Gymraeg a gynhelir gan awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf ar gyfer disgyblion 11-18 oed. Mae ynddi 761 o ddisgyblion, gan gynnwys 166 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth. Mae’r ysgol yn gwasanaethu disgyblion o bum ysgol gynradd ddynodedig Gymraeg Cwm Rhondda a cheir ceisiadau o bryd i’w gilydd gan ddisgyblion o’r tu allan i’r Cwm.

Daw disgyblion o ardaloedd sydd yn bennaf yn ddifreintiedig yn gymdeithasol ac o dan anfantais economaidd. Mae 40% o’r disgyblion yn byw mewn 20 o wardiau Cwm Rhondda sydd ymysg yr hanner cant o’r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae 17.4% o’r disgyblion yn hawlio prydau ysgol am ddim. Mae’r ffigwr hwn yn agos at y canran cenedlaethol o 17.7%. Mae bron pob un o’r disgyblion yn perthyn i’r grŵp ethnig gwyn. Nid oes unrhyw ddisgybl yn derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Derbynia’r ysgol ddisgyblion o ystod gallu lawn. Mae gan lai na 1% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn is na’r canran cenedlaethol. Yn ogystal, mae 24% o’r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol, sydd yn uwch na’r canran cenedlaethol.

Daw 99% o’r disgyblion o gartrefi lle Saesneg yw iaith yr aelwyd. Y Gymraeg yw prif iaith yr addysgu a’r dysgu ac mae bron pob un disgybl yn astudio’r Gymraeg fel iaith gyntaf.

Penodwyd y pennaeth ym Medi 2010 yn dilyn cyfnod o arweinyddiaeth gyfnewidiol o dri phennaeth mewn dwy flynedd.

Y gyllideb ysgol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Cymer Rhondda yn 2013-2014 yw £4,317. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Rhondda Cynon Taf yw £5,092 a'r lleiafswm yw £3,898. Mae Ysgol Gyfun Cymer Rhondda yn y degfed safle o'r 19 ysgol uwchradd yn Rhondda Cynon Taf o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- disgyblion yn gwneud cynnydd priodol ym mhob cyfnod allweddol;
- ansawdd y dysgu, addysgu ac asesu yn effeithiol mewn llawer o'r gwersi;
- yr ysgol yn darparu cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol sydd yn ennyn diddordeb disgyblion ac yn hyrwyddo ymdeimlad o gymuned gynhaliol yn llwyddiannus;
- yr ysgol wedi gwella perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn nangosyddion lefel 1 a lefel 2 ac mae perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 wedi gwella ac yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf y llynedd yn y mwyafrif o'r dangosyddion;
- trefniadau trylwyr ar gyfer trosglwyddo disgyblion o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3;
- disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn cymorth effeithiol; a bod
- canrannau presenoldeb wedi gwella yn y flwyddyn ddiwethaf ac yn gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Er hyn:

- yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad disgyblion dros y blynyddoedd diwethaf yn y dangosyddion sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg wedi bod yn arwyddocaol is na disgwyliadau; ac
- yng nghyfnodau allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae bechgyn yn tanberfformio yn y Gymraeg a Saesneg, a merched mewn mathemateg.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- rheolaeth yr uwch dim arwain sydd yn hyrwyddo cynnydd disgyblion fel prif flaenoriaeth yr ysgol a herio yn llwyddiannus lle mae tangyflawniad gan ddisgyblion ac athrawon;
- defnydd effeithiol o dechnoleg gwybodaeth i goladu data, monitro cynnydd disgyblion a chyflwyno rhaglen o ymyrraeth effeithiol i unigolion a grwpiau o ddisgyblion sy'n tanberfformio;
- hunanarfarnu cynhwysfawr sydd yn bwydo cynnwys cynllun datblygu ysgol yn effeithiol;
- ethos cymunedol cynhwysol sydd yn hybu cydweithio effeithiol rhwng disgyblion, staff a rheolwyr; a
- chynllunio bwriadus gan arweinwyr a rheolwyr i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

## Argymhellion

A1 Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4 yn enwedig yn y dangosyddion sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg, a mathemateg

A2 Codi cyrhaeddiad bechgyn ar draws yr ysgol yn y Gymraeg a Saesneg a merched mewn mathemateg

A3 Gwella ansawdd yr adeiladau ac ardaloedd allanol yr ysgol

A4 Parhau i gysoni ansawdd cofnodion rheolwyr ar bob lefel drwy, er enghraifft, nodi pwyntiau gweithredu a hyrwyddo atebolrwydd

A5 Sicrhau bod yr ysgol yn cyflawni gwerth am arian trwy sicrhau dosbarthiadau mwy cost effeithiol yn y chweched ddosbarth

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yng nghyfnod allweddol 4, mae tuedd o gynnydd dros y pedair blynedd ddiwethaf yng nghanran y disgyblion sy'n cyflawni yn y mwyafrif o'r prif ddangosyddion. Fodd bynnag, mae perfformiad yn y dangosyddion sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg, a mathemateg, yn is na'r perfformiad disgwyliedig. Mae hyn, bron yn ddieithriad, wedi gosod yr ysgol ymhlith y chwarter isaf o ysgolion tebyg dros y cyfnod hwn.

Ers 2010, mae perfformiad yr ysgol yn y dangosyddion sy'n cynnwys pum gradd A*-C TGAU neu gyfwerth, a phum gradd A*-G, wedi gwella'n sylweddol i fod yn sylweddol uwch na pherfformiad ysgolion tebyg yn 2013. Rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 4, gwna ddisgyblion gynnydd priodol mewn mwyafrif o'r dangosyddion sydd yn cynnwys ystod eang o gymwysterau.

Yn y chweched dosbarth, mae canlyniadau'r ysgol wedi gwella o fod yn is na ffigyrau'r awdurdod lleol a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf, i fod yn uwch yn 2013. Yn 2013, llwyddodd bron pob disgybl a oedd yn astudio Diploma Uwch y Fagloriaeth Gymreig i ennill y cymhwyster llawn.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yn y dangosydd pynciau craidd a'r pynciau craidd unigol ar y lefel ddiswgyliedig a'r lefelau uwch wedi bod yn y chwarter isaf mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf. Er hyn, mae perfformiad disgyblion yn 2013 wedi gwella yn sylweddol ac yn gosod yr ysgol ymhlith y chwarter uchaf ym mron pob dangosydd, ond y Gymraeg sydd yn yr hanner is.

Dros y blynyddoedd diwethaf, yn y ddau gyfnod allweddol, mae bechgyn yn tanberfformio yn y Gymraeg a Saesneg, a merched mewn mathemateg. Mae perfformiad disgyblion sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim wedi gwella yn sylweddol ac yn cymharu'n ffafriol â disgwyliadau.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'r medrau angenrheidiol i gefnogi eu dysgu. Maent yn dangos cymhelliant amlwg ac yn defnyddio gwybodaeth flaenorol yn briodol i ymestyn eu dealltwriaeth bynciol. Maent hefyd yn defnyddio eu gwybodaeth mewn cyd-destunau newydd i ddatrys problemau yn llwyddiannus.

Mae cynnydd disgyblion yn yr ychydig iawn o wersi rhagorol yn sylweddol. Yn y gwersi hyn mae'r disgyblion yn cynnig atebion o safon uchel ac yn gallu trafod yn aeddfed ac yn estynedig. Mewn lleiafrif arall o'r gwersi, mae cynnydd disgyblion yn araf gydag anghysondeb yn eu defnydd o iaith gywir wrth ddisgrifio nodweddion y tasgau. Yn y sesiynau hyn, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth fwy ansicr o'r gwaith.

Mae safonau gwrando a siarad disgyblion yn Gymraeg a Saesneg yn gryfder. Mae bron pob un yn gwrando ar gyfarwyddiadau'r athro yn astud ac yn defnyddio termau pynciol priodol wrth drafod eu gwaith gyda'u cyfoedion. Mae medrau darllen disgyblion yn y ddwy iaith yn datblygu ar lefel briodol i'w hoed a'u gallu ar draws y cwricwlwm, er bod lleiafrif bach yn darllen yn llai hyderus.

Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion fedrau ysgrifennu creadigol dychmygus iawn. Mae medrau ysgrifennu mwyafrif y disgyblion yn y Gymraeg a Saesneg yn dda ar y cyfan ac yn eu galluogi i ddatblygu gwybodaeth berthnasol ar draws y pynciau. Mae mwyafrif y disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o gonfensiynau gramadegol ac yn cymhwyso eu dealltwriaeth i gyd-destunau ehangach yn dda. Mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig ac yn effeithiol mewn ystod eang o ffurfiau, gan gynnwys gwaith creadigol, cofnodi gwaith ymchwil a datrys problemau o fewn mwyafrif y pynciau.

Nodwedd o waith ysgrifenedig lleiafrif o'r disgyblion yw diffyg amrywiaeth o ran y defnydd o batrymau brawddegu. Hefyd, mae gormod o wallau mewn cystrawen neu sillafu a'r defnydd o eiriau Saesneg wrth ysgrifennu yn Gymraeg. Mae gan ychydig o ddisgyblion, yn aml bechgyn, ddiffygion gramadegol amlwg a gwaith ysgrifenedig anghyflawn.

Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio ystod o fedrau rhif priodol, gan wneud defnydd cywir o ystod o strategaethau gan gynnwys dulliau pen, dulliau ysgrifenedig a defnyddio cyfrifiannell. Mae llawer yn datblygu gwybodaeth briodol o dermau mathemategol. Mae mwyafrif y disgyblion mewn pynciau fel busnes a daearyddiaeth yn gallu casglu, trefnu a dehongli data yn effeithiol ac yn ymateb yn dda i'r gofynion mathemategol pwnc-benodol. Mae llawer o'r disgyblion yn meddu ar fedrau technoleg gwybodaeth cadarn i gyflwyno gwybodaeth yn llwyddiannus trwy dablau a graffiau cywir.

Mae medrau meddwl y mwyafrif o'r disgyblion yn dda ac maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'u cyfoedion ac yn dangos cymhelliant uchel i gyflawni eu gwaith.

Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a disgyblion mwy abl a thalentog yn gwneud cynnydd priodol yn ôl eu gallu. Mae disgyblion sydd ar raglenni ymyrraeth ar gyfer hybu medrau rhifedd a llythrennedd yn gwneud cynnydd da.

**Lles: Da**

Mae'r disgyblion i gyd yn arddangos ymagweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda iawn. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn deall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. Mae nifer fawr ohonynt yn meddu ar ymagweddau cadarn i hyrwyddo a chefnogi disgyblion eraill. Mae bron pob un disgybl yn ystyried bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw achosion o fwlio.

Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ddealltwriaeth gyflawn o sut i gadw'n iach ac yn heini. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfranogi mewn gweithgareddau sydd yn hybu ffitrwydd ac mae gan lawer ohonynt ymwybyddiaeth drylwyr o sut i fwyta ac yfed yn iach.

Ers 2011, mae presenoldeb disgyblion wedi dangos tuedd o gynnydd er bod yr ysgol wedi bod yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg o ran cymhwyster i brydau ysgol am ddim.  Yn 2013, bu cynnydd sylweddol ym mhresenoldeb disgyblion sydd yn lleoli'r ysgol yn yr hanner uwch o gymharu ag ysgolion tebyg.  Mae data'r ysgol, sydd heb ei ddilysu, yn cadarnhau bod y cynnydd cadarnhaol yn parhau yn 2014 o gymharu â'r cyfnod cyffelyb y llynedd.  Mae lefel y gwaharddiadau parhaol yn isel iawn, ac mae nifer y gwaharddiadau dros dro hefyd yn isel ac yn gostwng.

Mae disgyblion y cyngor ysgol wedi cael dylanwad amlwg ar yr ysgol trwy brosiectau sy'n hybu addysgu da, diogelwch disgyblion ac iechyd personol.  Mae disgyblion hŷn y cyngor yn mynychu cyfarfodydd y corff llywodraethol i adlewyrchu barn disgyblion am briodoleddau'r ysgol yn effeithiol.  Yn ogystal, mae disgyblion y chweched dosbarth yn cefnogi disgyblion cyfnod allweddol 3 gydag agweddau ar waith addysg bersonol a chymdeithasol yn effeithiol.

Medda disgyblion hŷn yr ysgol ar fedrau rhyngberthnasol aeddfed.  Maent yn gweithio'n effeithiol ar brosiectau a gweithgareddau yn y gymuned leol a thu hwnt, er enghraifft trwy drefnu dawns de dymhorol ar gyfer yr henoed.  Mae hyn yn cyfoethogi eu profiadau ac yn cadarnhau eu hymdeimlad o gyfrifoldeb cymdeithasol.  Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion y medrau i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg neu waith yn llwyddiannus

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu:  Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm sydd yn eang a chytbwys ac yn ymateb i anghenion disgyblion unigol a gofynion statudol.  Mae'n adeiladu'n dda ar brofiadau blaenorol y disgyblion.  Ym Mlwyddyn 9, mae opsiynau yn galluogi disgyblion i ennill cymhwyster lefel 2, er enghraifft mewn technoleg gwybodaeth, a hefyd astudio iaith dramor ychwanegol.  Yng nghyfnod allweddol 4, mae ystod eang o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol a dewis eang o weithgareddau allgyrsiol sydd yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn hybu'r diwylliant Cymreig yn effeithiol iawn.  Addysgir holl gyrsiau cyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 a bron pob cwrs yn y chweched dosbarth trwy gyfrwng y Gymraeg.  Saif y disgyblion bron bob arholiad trwy gyfrwng y Gymraeg.  Mae'r ysgol yn cynllunio'n llwyddiannus i godi dealltwriaeth y disgyblion o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru.

Mae'r ysgol yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion ar draws y pynciau yn effeithiol ac yn gwneud cynnydd da tuag at fodloni gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.  Mae rhaglenni ymyrraeth llythrennedd a rhifedd yn llwyddiannus ac yn sicrhau mynediad disgyblion i'r holl gwricwlwm.

Mae'r ysgol yn darparu rhaglen gyfoethog ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol gan ddefnyddio disgyblion hŷn i gyflwyno unedau allweddol yn llwyddiannus, er enghraifft drwy hybu perthynas iach a diogelwch personol.  Cyflwynir rhaglen ofalus i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o yrfaoedd a byd gwaith.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn effeithiol.

**Addysgu: Da**

Mae gan bron pob athro ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion. Mae llawer yn cynllunio'u gwersi yn fedrus i gynnwys amrywiaeth o weithgareddau sy'n hybu medrau a sgiliau'r disgyblion yn effeithiol. Mae llawer o athrawon yn cynnig modelau iaith da ac yn egluro nodau ac amcanion i'r disgyblion yn glir iawn ar ddechrau'r gwersi. Maent yn sicrhau bod eu gwersi yn datblygu gwybodaeth ac yn holi disgyblion mewn ffyrdd sensitif i ymestyn eu dealltwriaeth. Mae cyflwyniad a threfniant ynghyd â chyflymder priodol y gwersi hyn yn sicrhau bod cymhelliant a gweithgarwch disgyblion yn uchel.

Yn yr ychydig wersi lle mae'r addysgu yn rhagorol, mae'r athrawon yn defnyddio eu gwybodaeth eang o'r pwnc i gynllunio a chyflwyno gweithgareddau sy'n ysbrydoli a herio disgyblion o bob gallu. Mae brwdfrydedd yr athro yn ysgogi'r disgyblion i ymateb yn frwd i'r tasgau. Yn yr ychydig wersi llai llwyddiannus, nid yw'r athro mor effeithiol wrth esbonio'r gwaith a threfnu'r tasgau.

Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon yn marcio gwaith eu disgyblion yn ofalus ac yn rheolaidd. Mae llawer yn cywiro camgymeriadau a darparu adborth defnyddiol ar gynnydd disgyblion trwy gynnig sylwadau ar ansawdd y gwaith, targedau ar gyfer safonau pynciol a thargedau ar gyfer gwella iaith. Mae athrawon yn hybu hunanasesu ac asesu cymheiriaid disgyblion yn briodol.

Mae'r ysgol yn casglu data perfformiad disgyblion yn rheolaidd. Mae arweinwyr yn dadansoddi'r data yn ofalus iawn ac yn ailgyflwyno'r wybodaeth i athrawon er mwyn trefnu ymyrraeth i'r disgyblion sy'n tanberfformio. Mae elfennau ardderchog ym manylder a chyflawnder y data. Defnyddir y wybodaeth yn effeithiol iawn i ddarparu ymyrraeth a chefnogaeth gyflym i herio a chefnogi disgyblion sy'n tanberfformio.

Mae gan yr ysgol gyfundrefn effeithiol iawn i adrodd i rieni. Mae'r adroddiadau blynyddol llawn o ansawdd uchel.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol, diwylliannol ac ysbrydol disgyblion yn effeithiol. Mae'r drefn ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn newydd, yn ymateb i'r gofynion statudol ac yn dylanwadu'n gadarnhaol iawn ar gyflawniad disgyblion. Mae'r cyngor ysgol wedi chwarae rhan bwysig wrth gynllunio'r ddarpariaeth i fod yn berthnasol iawn i anghenion disgyblion.

Mae gofal a chefnogaeth athrawon a rheolwyr bugeiliol yr ysgol yn effeithiol iawn. Maent yn cydweithio'n adeiladol gydag amrediad o asiantaethau allanol i gefnogi unigolion gyda gwybodaeth ac arweiniad arbenigol. Defnyddir arbenigedd allanol yr asiantaethau hyn, drwy gyflwyno cyngor a hyfforddiant o ansawdd da ar gyfer staff a chefnogaeth i'r disgyblion. Nodwedd gref o'r ysgol yw'r defnydd o ddisgyblion i gefnogi disgyblion eraill, er enghraifft trwy drefniant 'Cymer Ofal, sef rhaglen lwyddiannus i sicrhau diogelwch unigolion.

Mae'r ysgol yn darparu arweiniad a chyngor cynhwysfawr i'r disgyblion wrth iddynt ddewis cyrsiau ar gyfer cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae'r ysgol yn ymestyn ymwybyddiaeth disgyblion o fyd gwaith yn effeithiol trwy drefnu siaradwyr o fusnesau lleol a chyfleoedd profiad gwaith iddynt.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hadnabod yn gyflym trwy gysylltiadau agos gyda rhieni, asiantaethau arbenigol a'r ysgolion cynradd. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hybu cynnydd a chefnogaeth fugeiliol disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn drwyadl iawn. Mae'r defnydd o broffil disgybl yn effeithiol, ac yn galluogi staff i gynllunio darpariaeth briodol ar eu cyfer. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sydd ar raglen ymyrraeth yn gwneud cynnydd da.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn cwrdd â'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae ethos yr ysgol o gymuned ofalgar yn un o'i chryfderau amlwg. Mae'n gymuned gynhwysol lle mae gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol disgyblion tuag at waith a chymdeithas yn cael eu hybu yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r diwylliant Cymreig yn gadarnhaol iawn ac mae pob disgybl yn derbyn cyfleoedd cyfartal. Mae polisïau perthnasol ar waith i hybu gwerthoedd positif a hyrwyddo cydraddoldeb o ran hil, crefydd, rhyw a gallu yn effeithiol. Mae gweithdrefnau effeithiol yr ysgol yn hybu agweddau goddefgar amlwg iawn ymysg disgyblion.

Mae amrediad o adnoddau dysgu ac addysgu priodol yn yr ysgol gan gynnwys adnoddau technoleg gwybodaeth. Mae arddangosfeydd amrywiol a lliwgar o waith a llwyddiannau disgyblion o fewn dosbarthiadau a choridorau yn creu awyrgylch dysgu braf. Mae neuadd chwaraeon ac ystafell ffitrwydd o ansawdd uchel.

Mae mwyafrif o adeiladau'r ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac mae'r disgyblion wedi gweithredu i harddu'r safle drwy blannu coed. Er hyn, mae prif adeiladau'r ysgol yn hen ac mae ganddynt nodweddion anaddas mewn mannau, gan gynnwys enghreifftiau o graciau yn y waliau a thamprwydd parhaus mewn lleiafrif bach o'r dosbarthiadau. Oherwydd anwastadedd y tir, mae cyfleusterau awyr agored yr ysgol yn gyfyng ac mae arwyneb tarmac y llwybrau a'r iardiau yn anwastad mewn mannau.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinwyr wedi llwyddo i sicrhau gwelliant sylweddol dros y tair blynedd ddiwethaf er i'r tîm arolygu farnu mai digonol yw safonau ar hyn o bryd. Mae'r gwelliant hwn i'w weld yn fwyaf amlwg yng nghyfnod allweddol 3, ond gwelir gwelliant da hefyd yn rhyw hanner o ddangosyddion cyfnod allweddol 4. Mae gan arweinwyr syniad clir o sut i sicrhau gwelliant pellach ac maent wedi cyflwyno strategaethau effeithiol er mwyn cyflawni hyn.

Mae nodau, amcanion, polisïau a chynlluniau addas yn darparu cyfeiriad clir i waith yr ysgol, gan roi ffocws cryf ar fodloni anghenion disgyblion a cheisio safonau uchel. Mae'r strwythur staffio'n sicrhau cydbwysedd da o ran cyfrifoldebau ar bob lefel. Caiff rolau a chyfrifoldebau eu diffinio'n glir ac mae gan bob aelod o'r staff ddealltwriaeth dda o'i gyfrifoldebau.

Ers ei phenodi yn 2010, mae'r pennaeth wedi arwain yr ysgol yn gadarn ac wedi gweithredu'n llwyddiannus i sicrhau gwelliant o ran arweinyddiaeth, atebolrwydd ansawdd addysgu, a disgwyliadau uwch o athrawon a disgyblion. Mae aelodau eraill yr uwch dîm arwain yn rhoi cefnogaeth dda i'r pennaeth. Mae'r uwch arweinwyr i gyd a'r rhan fwyaf o arweinwyr canol yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n drylwyr ac yn effeithiol. Mae pob arweinydd yn dangos ymrwymiad cadarn i weledigaeth ac amcanion yr ysgol. Yn ogystal, mae gwaith yr arweinwyr cynnydd newydd yn dechrau cael dylanwad amlwg ar wella safonau. Darperir cefnogaeth ddefnyddiol ar gyfer arweinwyr newydd a'r ychydig o arweinwyr canol sydd yn llai effeithiol.

Mae system rheoli llinell yr ysgol yn gadarn ac yn sicrhau atebolrwydd cryf ar bob lefel. Trwy gyfarfodydd a chyfathrebu rheolaidd, mae rheolwyr llinell yn herio staff yn gyson o ran y safonau mae disgyblion yn eu cyrraedd, a chynnydd mewn perthynas â blaenoriaethau'r ysgol ac adrannau. Un o gryfderau'r ysgol yw'r defnydd o ddata er mwyn gosod targedau heriol, tracio cynnydd disgyblion a herio athrawon ar eu rhan yn y broses.

Trefnir rhaglen gynhwysfawr o gyfarfodydd rheolaidd ar bob lefel, ac mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi pwyslais priodol ar safonau, dysgu ac addysgu. Mae pob arweinydd yn cofnodi'r trafodaethau, ond mae peth anghysondeb yn y cofnodion, yn enwedig o ran nodi pwyntiau gweithredu'n ddigon clir.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad priodol ac mae'r rhain yn cael eu gweithredu'n gyson. Mae'r cysylltiad clir rhwng targedau athrawon a blaenoriaethau'r ysgol ac adrannau.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw da i flaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft datblygiad medrau disgyblion, llwybrau dysgu 14-19, pontio rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 a datblygu dwyieithrwydd disgyblion.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda o'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn yr ysgol ac maen nhw'n cyfrannu'n briodol at osod cyfeiriad strategol yr ysgol. Mae llywodraethwyr wedi derbyn hyfforddiant priodol yn ddiweddar sydd wedi gwella eu dealltwriaeth o ddata perfformiad. Maent yn rhoi cefnogaeth dda i arweinwyr yr ysgol ac yn eu herio ynghylch rhai agweddau ar eu gwaith. Mae'r rhan hon o'u rôl wedi cael ei chryfhau yn ddiweddar trwy'r cyfarfodydd a gynhelir rhwng llywodraethwyr cyswllt ac arweinwyr unigol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella yn ganolog i waith yr ysgol. Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddogfen drwyadl sydd yn nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Er hynny, nid yw'n darparu trosolwg cryno ac, mewn mannau, mae'n or-ddisgrifiadol.

Mae'r uwch dim arwain yn darparu calendr priodol o weithgareddau hunanarfarnu ar bob lefel yn yr ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddi data yn fanwl, craffu ar waith disgyblion yn rheolaidd, yn ogystal â gwrando ar farn disgyblion er mwyn gwella safonau mewn dysgu ac addysgu. Mae arsylwi gwersi cyson yn nodwedd amlwg o'r drefn sicrhau gwelliant ac yn ffordd effeithiol o farnu safonau ac arfarnu ansawdd yr addysgu. Mae ansawdd yr addysgu wedi gwella o ganlyniad i ystod o strategaethau sy'n cynnwys gosod targedau i athrawon unigol, darparu hyfforddiant a rhannu arferion da. Mae'r prosesau hyn yn greiddiol i gynllunio ar gyfer gwella llwyddiannus yn yr ysgol ac maent wedi dechrau cael effaith gadarnhaol ar wella safonau.

Mae llawer o'r adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn ddogfennau defnyddiol. Mae cysondeb da mewn ansawdd ar draws llawer o'r adroddiadau, sy'n deillio o'r arweiniad manwl gan uwch arweinwyr yr ysgol i arfarnu holl waith adrannau. Mae llawer o'r arweinwyr canol yn gwneud defnydd da o ystod o ffynonellau data er mwyn adolygu perfformiad disgyblion unigol mewn arholiadau allanol. Yn ogystal, mae pob athro yn gwneud dadansoddiad manwl o berfformiad ei ddisgyblion mewn arholiadau er mwyn canolbwyntio ar agweddau i'w gwella. O ganlyniad, mae strategaethau ymyrraeth llwyddiannus iawn i godi safonau. Mae hyn yn nodwedd gref o brosesau gwella ansawdd yr ysgol.

Mae'r cynllun gwella ysgol yn cynnwys blaenoriaethau priodol ar gyfer gwella safonau. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y blaenoriaethau a'r meysydd i'w datblygu yn yr adroddiad hunanarfarnu gyda chamau gweithredu clir i fynd i'r afael â phob targed. Yn ogystal, mae'n cynnwys costau a therfynau amser priodol, cyfrifoldebau addas a meini prawf gyda chamau monitro pendant i fesur llwyddiant y gweithredu yn effeithiol.

Mae cyswllt clir hefyd rhwng y meysydd i'w gwella yn yr hunanarfarniadau adrannol a blaenoriaethau'r cynlluniau gwella adrannol. Mae llawer o'r rhain yn ddogfennau defnyddiol o ran sicrhau gwelliant yn yr adrannau.

Mae monitro cyson o brosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella ar draws yr adrannau gan yr uwch dim arwain yn sicrhau cynnydd amlwg wrth wella ansawdd a chodi safonau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu ystod o bartneriaethau effeithiol sydd yn cryfhau ansawdd y cwricwlwm ac yn cyfrannu at wella safonau a lles disgyblion.

Mae rhieni'n derbyn gwybodaeth berthnasol yn rheolaidd a threfnir cyfarfodydd priodol i drafod cynnydd disgyblion. Mae'r ysgol yn ceisio barn rhieni trwy holiaduron ar agweddau o fywyd a gwaith yr ysgol ac yn ymateb yn dda i unrhyw sylwadau. Mae rhieni ac athrawon yn cydweithio'n effeithiol trwy'r gymdeithas rieni a staff i godi arian tuag at waith yr ysgol ac elusennau yn llwyddiannus.

Mae cydweithio effeithiol gydag ysgolion uwchradd eraill yn galluogi'r ysgol i gynnig ystod briodol o gyrsiau trwy'r Gymraeg ar gyfer myfyrwyr y chweched dosbarth. Er hyn, nid yw darpariaeth ôl-16 yr ysgol yn ddigon cost effeithiol. Gweithredir trefniadau priodol i fonitro ansawdd y ddarpariaeth a'r addysgu sydd yn digwydd ar safleoedd eraill.

Mae'r ysgol wedi sefydlu perthynas waith agos gyda'r pum ysgol gynradd sy'n ei bwydo, ac mae'r staff yn cydweithio'n bwrpasol ac yn cynllunio ar y cyd yn effeithiol. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym wrth ddechrau yn yr ysgol uwchradd a cheir dilyniant priodol yn y dysgu ar draws y cwricwlwm. Mae'r cynllunio ar y cyd ar gyfer dulliau addysgu, cymedroli a safoni asesiadau athrawon a hybu datblygiad medrau disgyblion yn un o gryfderau'r bartneriaeth hon.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau buddiol hefyd gyda chyflogwyr, aelodau o'r gymuned leol, ystod o asiantaethau amlddisgyblaethol a choleg sydd yn trefnu hyfforddiant i ddarpar athrawon.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Yn gyffredinol, mae gan yr ysgol ddigon o staff cymwys. Serch hynny, mae'r addysgu'n cael ei rannu gan ddau neu fwy o athrawon mewn ychydig iawn o ddosbarthiadau. Mae'r drefn hon yn gosod her gynyddol ar yr ysgol i sicrhau ansawdd da a pharhad y ddarpariaeth.

Mae'r trefniadau ar gyfer hyrwyddo cydweithio rhwng athrawon yn yr ysgol a thu hwnt i ddatblygu dysgu proffesiynol yn ddatblygiad cadarnhaol. Gwelir cynnydd amlwg yn y safonau yn rhannol oherwydd effaith y partneriaethau hyn ar hybu ansawdd addysgu a chodi disgwyliadau athrawon.

Mae adnoddau a chyllideb yr ysgol yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae argymhellion yr awdit mwyaf diweddar wedi cael eu gweithredu'n llwyddiannus. Mae dyled yr ysgol wedi lleihau trwy gynllunio bwriadus sydd wedi ei gytuno gyda'r awdurdod lleol a chymryd camau priodol i gwtogi ar wariant. Mae'r ysgol yn monitro'r gyllideb yn fanwl er mwyn cynllunio'n ar gyfer y dyfodol ac mae'r llywodraethwyr yn rheoli adnoddau ariannol yn briodol. Er hyn, nid ydynt eto wedi sicrhau bod y ddarpariaeth ôl-16 yn gost effeithiol oherwydd y niferoedd bach ym mwyafrif y pynciau.

Gan mai digonol yw safonau cyflawniad, digonol yw'r gwerth am arian y mae'r ysgol yn ei gynnig.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad disgyblion wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf gyda thuedd o gynnydd yng nghanran y disgyblion sydd yn cyflawni ym mwyafrif y prif ddangosyddion, er bod gostyngiad yn 2012. Mae perfformiad disgyblion yn y dangosydd trothwy lefel 2, sydd yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg, a mathemateg, a hefyd perfformiad y dangosydd pynciau craidd, wedi bod yn y chwarter isaf neu'r hanner is ers 2009 o gymharu ag ysgolion tebyg o ran lefelau prydau ysgol am ddim.

Mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd trothwy lefel 2 wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf. Yn 2013, mae perfformiad yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 1 wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf. Er hyn, yn 2013, mae perfformiad yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Ers 2011, mae perfformiad yn y sgôr bwyntiau cyfartalog ehangach wedi'i chapio wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu. Yn 2013, mae perfformiad yr ysgol wedi gwella ac yn gosod yr ysgol yn yr hanner uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yn y pynciau craidd unigol, mae perfformiad yn y Gymraeg fel iaith gyntaf ar lefel 2 wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn yr hanner uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf. Mae perfformiad yn lefel 2 Saesneg wedi bod yn uwch na chyfartaledd y teulu mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf a'r chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg yn 2013. Mae perfformiad disgyblion mewn mathemateg ar lefel 2 wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu ers 2009 ac yn y chwarter is o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth ar lefel 2 wedi amrywio ac wedi bod yn agos at, neu'n is na, chyfartaledd y teulu ers 2009 ac yn yr hanner is o gymharu ag ysgolion tebyg yn 2012 a 2013.

Yn 2013, mae'r gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sydd yn derbyn prydau ysgol am ddim a'r gweddill yn y prif ddangosyddion wedi cau. Mae perfformiad y disgyblion hyn yn well nag mewn ysgolion tebyg yn y dangosydd lefel 2, dangosydd lefel 1 a'r sgôr bwyntiau wedi ei chapio. Mae hyn oherwydd bod perfformiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim wedi gwella'n sylweddol yn y dangosyddion hyn. Er hyn, mae'r gwahaniaeth yn llai cadarnhaol yn y dangosydd lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg, a mathemateg, a'r dangosydd pynciau craidd o gymharu ag ysgolion tebyg.

Yn 2013, mae cynnydd disgyblion o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 4 yn ychwanegu gwerth ychwanegol cadarnhaol o fewn mwyafrif o'r dangosyddion pwysig.

Yng nghyfnod allweddol 3, ers 2011, mae perfformiad disgyblion sy'n cyrraedd lefel 5 neu well a lefel 6 neu well yn y pynciau craidd unigol, a hefyd o'u cyfuno, wedi amrywio. Mae perfformiad disgyblion wedi bod yn y chwarter isaf mewn dwy o'r tair

blynedd diwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg.  Er hyn, mae perfformiad disgyblion ym mron pob un o’r dangosyddion wedi gwella yn sylweddol yn 2013 ac yn gosod yr ysgol ymhlith y chwarter uchaf.  Fodd bynnag, roedd perfformiad yn y Gymraeg yn 2013 yn y gosod yr ysgol yn yr hanner is o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae’r gwahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion sydd yn derbyn prydau ysgol am ddim a’r gweddill yn y prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 3 yn llai na'r teulu yn y mwyafrif o'r dangosyddion pwysig.

Mae perfformiad bechgyn a merched yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 wedi amrywio dros y blynyddoedd.  Dros y cyfnod hwn yn gyffredinol, mae bechgyn yn tanberfformio yn y Gymraeg a Saesneg, a merched mewn mathemateg.

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad yr ysgol yn y trothwy lefel 3 yn 2013 yn uwch na chyfartaledd y sir ac yn cyfateb i gyfartaledd Cymru.  Mae hyn yn gynnydd ar y ddwy flynedd flaenorol pan oedd perfformiad yn is na chyfartaledd y sir a Chymru.  Yn 2013, llwyddodd canran uchel o'r disgyblion ennill cymhwyster llawn Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru, sef y flwyddyn gyntaf i'r ysgol gyflwyno’r cymhwyster.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid – ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Uwchradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 215 | 68<br>32% | 143<br>67% | 3<br>1% | 1<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 43% | 53% | 3% | 1% | |
| The school deals well with any bullying | 215 | 47<br>22% | 130<br>60% | 35<br>16% | 3<br>1% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 26% | 58% | 14% | 2% | |
| I have someone to talk to if I am worried | 215 | 80<br>37% | 113<br>53% | 16<br>7% | 6<br>3% | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni. |
| | | 38% | 52% | 8% | 1% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 215 | 45<br>21% | 116<br>54% | 49<br>23% | 5<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 23% | 57% | 17% | 3% | |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 215 | 58<br>27% | 103<br>48% | 49<br>23% | 5<br>2% | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 45% | 45% | 9% | 2% | |
| I am doing well at school | 215 | 63<br>29% | 141<br>66% | 11<br>5% | 0<br>0% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 32% | 62% | 5% | 1% | |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 214 | 61<br>29% | 130<br>61% | 22<br>10% | 1<br>0% | Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| | | 38% | 55% | 6% | 1% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 215 | 25<br>12% | 113<br>53% | 67<br>31% | 10<br>5% | Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 20% | 54% | 21% | 5% | |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 214 | 65<br>30% | 123<br>57% | 21<br>10% | 5<br>2% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 45% | 47% | 7% | 1% | |
| Pupils behave well and I can get my work done | 215 | 16<br>7% | 126<br>59% | 57<br>27% | 16<br>7% | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 10% | 57% | 27% | 6% | |
| Staff treat all pupils fairly and with respect | 215 | 42<br>20% | 116<br>54% | 41<br>19% | 16<br>7% | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |
| | | 29% | 50% | 17% | 4% | |

| | | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| The school listens to our views and makes changes we suggest | | 215 | | 29<br>13% | 113<br>53% | 63<br>29% | 10<br>5% | | Mae’r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni’n eu hawgrymu. |
| | | | | 16% | 54% | 25% | 5% | | |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | | 213 | | 65<br>31% | 135<br>63% | 13<br>6% | 0<br>0% | | Rwy’n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| | | | | 34% | 60% | 5% | 1% | | |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | | 214 | | 57<br>27% | 119<br>56% | 31<br>14% | 7<br>3% | | Mae’r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| | | | | 36% | 54% | 9% | 1% | | |
| The staff respect me and my background | | 215 | | 82<br>38% | 116<br>54% | 14<br>7% | 3<br>1% | | Mae’r staff yn fy mharchu i a’m cefndir. |
| | | | | 37% | 54% | 7% | 2% | | |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | | 213 | | 65<br>31% | 136<br>64% | 11<br>5% | 1<br>0% | | Mae’r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| | | | | 36% | 56% | 7% | 1% | | |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | | 102 | | 33<br>32% | 56<br>55% | 7<br>7% | 6<br>6% | | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| | | | | 28% | 52% | 15% | 5% | | |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | | 70 | | 18<br>26% | 32<br>46% | 10<br>14% | 10<br>14% | | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |
| | | | | 28% | 50% | 16% | 6% | | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 319 | 122 | 180 | 13 | 3 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 38% | 56% | 4% | 1% | | |
| | | 43% | 50% | 4% | 1% | | |
| My child likes this school. | 321 | 139 | 160 | 15 | 3 | 4 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 43% | 50% | 5% | 1% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 319 | 180 | 131 | 7 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 56% | 41% | 2% | 0% | | |
| | | 49% | 45% | 3% | 1% | | |
| My child is making good progress at school. | 319 | 137 | 156 | 12 | 5 | 9 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 43% | 49% | 4% | 2% | | |
| | | 45% | 48% | 4% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 314 | 67 | 181 | 19 | 13 | 34 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 21% | 58% | 6% | 4% | | |
| | | 22% | 55% | 11% | 3% | | |
| Teaching is good. | 318 | 95 | 192 | 15 | 2 | 14 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 30% | 60% | 5% | 1% | | |
| | | 34% | 57% | 5% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 320 | 160 | 148 | 7 | 0 | 5 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 50% | 46% | 2% | 0% | | |
| | | 51% | 45% | 2% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 318 | 84 | 184 | 31 | 8 | 11 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 26% | 58% | 10% | 3% | | |
| | | 31% | 53% | 8% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 321 | 97 | 149 | 28 | 18 | 29 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 30% | 46% | 9% | 6% | | |
| | | 32% | 48% | 9% | 2% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 317 | 88 | 169 | 29 | 4 | 27 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 28% | 53% | 9% | 1% | | |
| | | 33% | 53% | 7% | 1% | | |
| My child is safe at school. | 321 | 135 | 163 | 9 | 2 | 12 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 42% | 51% | 3% | 1% | | |
| | | 41% | 52% | 3% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 308 | 117 | 130 | 29 | 3 | 29 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 38% | 42% | 9% | 1% | | |
| | | 32% | 46% | 7% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 315 | 89 | 166 | 44 | 11 | 5 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 28% | 53% | 14% | 3% | | |
| | | 34% | 50% | 11% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 315 | 125 | 158 | 23 | 4 | 5 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 40% | 50% | 7% | 1% | | |
| | | 41% | 48% | 6% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 319 | 89 | 155 | 35 | 7 | 33 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 28% | 49% | 11% | 2% | | |
| | | 27% | 51% | 10% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 315 | 119 | 155 | 21 | 7 | 13 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 38% | 49% | 7% | 2% | | |
| | | 36% | 53% | 5% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 303 | 79 | 119 | 37 | 9 | 59 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 26% | 39% | 12% | 3% | | |
| | | 26% | 46% | 8% | 2% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 320 | 83 | 149 | 51 | 20 | 17 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 26% | 47% | 16% | 6% | | |
| | | 35% | 50% | 9% | 2% | | |
| The school is well run. | 317 | 114 | 166 | 19 | 6 | 12 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 36% | 52% | 6% | 2% | | |
| | | 40% | 49% | 5% | 2% | | |

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Gareth Wyn Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Simon Davies | Arolygydd Tîm |
| Gareth Wyn Roberts | Arolygydd Tîm |
| David Ivor Hughes | Arolygydd Tîm |
| Kevin Adams | Arolygydd Tîm |
| Gwen Lloyd Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| Rhodri Thomas | Arolygydd Cymheiriaid |
| Elise Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C. |
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Setiau Data Craidd Cymru Gyfan | Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys |

| | |
|---|---|
| | ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy’n byw yn 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy’n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |